PWY YW EICH DUW CHI?

Nodyn i'r siaradwr:
Pwysleisiwch mai dau ddewis sy' 'na yn sylfaenol ynglyn â phwy mae pobl yn ei addoli, Jehofah a Satan. Mae llawer sy'n meddwl eu bod nhw'n addoli Duw, mewn gwirionedd yn addoli Satan. Helpwch y gynulleidfa i ddadansoddi'n glir ble'n union maen' nhw'n sefyll. Profwch mai addoli Satan ydi gau-addoliaeth. Helpwch addolwyr Jehofah i fod yn fwy cadarn eu hargyhoeddiadau

MAE MWY YMHLYG YN Y CWESTIWN NA BARN BERSONOL (8 mun.)

Mae'r rhan fwyaf o bobl yn meddwl eu bod nhw'n gwybod yr ateb i'r cwestiwn, "Pwy yw eich Duw chi?"

Ond mae mwy ymhlyg yn y cwestiwn na barn neu deimlad personol (Mth 7:22, 23)

Ydi gwrthrych eich addoliad chi'n bodoli mewn gwirionedd ac yn rhoi prawf o dduwdod? (Jer 16:20; *w*88 2/1 16)

Ydi ffurf yr addoliad a gynigiwch chi yn cael ei dderbyn? (Mth 7:21; Act 7:42, 43)

Mae llawer o bethau yn cael eu haddoli heddiw fel duwiau (*w*90 12/1 4-5; *w*88 2/1 16)

Mae rhai pobl yn cyfaddef eu bod nhw'n edrych ar arian, pleser, neu wyddoniaeth fel eu duw nhw (Eseia 65:11; Phil 3:19)

Yn aml, mae pobl amlwg megis arweinwyr gwleidyddol neu sêr chwaraeon a ffilm yn cael eu heilun-addoli (Act 12:21, 22)

Mae beth bynnag y mae dyn yn ei chwennych yn dduw i'r dyn hwnnw (Col 3:5)

Mae cannoedd o filiynau o unigolion yn ymgrymu i eilunod (Eseia 44:16, 17, 20; *w*90 12/1 4)

Ond a oes 'na rhyw Fod byw, neu Dduw, yn deilwng o gael ei addoli?

Mae rhai yn honni addoli Duw y Beibl er mai dim ond cysyniad niwlog sy' ganddyn' nhw ohono, heb wybod ei enw neu hyd yn oed a oes ganddo enw, heb wybod ai person sydd â chorff ganddo yn byw mewn lle penodol ydi e neu ai dim ond grym ydi e sy'n bodoli ym mhobman

Y FFAITH YDI FOD Y BEIBL YN DANGOS MAI DIM OND DAU DDUW SYDD YN CAEL EU HADDOLI (10 mun.)

Dim ond un *gwir* Dduw sydd (In 17:3; *pe* 34-6)

Mae ganddo enw (Salmau 83:18)

Mae ganddo gorff ysbrydol (In 4:24)

Mae e'n preswylio yn y nef (1Bren 8:43)

Jehofah ydi'r gwir, hollalluog Dduw, y Creawdwr a'r Un sy'n teilyngu addoliad (Dat 4:11)

Er bod llawer o dduwiau eraill yn cael eu haddoli, addoliad wedi'i gyfeirio at gythreuliaid ydi addoli'r holl dduwiau eraill hyn, yn ôl y Beibl (Deut 32:16, 17; 1Cor 10:20)

Hindwiaid yn cydnabod 330,000,000 o dduwiau; ysgrifeniadau Shinto yn cyfeirio at 8,000,000 o dduwiau (*g*88 12/22 21; *it*-1 201, 237, 689)

Gan mai Satan ydi "pennaeth y cythreuliaid" ac y dywedir mai ei angylion e ydyn nhw, yna yn y pen draw mae addoli cythreuliaid yn addoli Satan (Mth 12:24, 26; Dat 12:7; *w*90 12/1 5-6)

Fe mewn gwirionedd ydi'r gau dduw eithaf (2Cor 4:4)

Mae unrhyw addoli sy' heb fod yn addoli Jehofah yn ffals (yn addoli gau) ac yn gwasanaethu pwrpas Satan

Mae angen i ni benderfynu pwy mewn gwirionedd 'rydyn ni'n ei addoli

Mae'n rhaid i ni sicrhau fod ein haddoliad ni'n dderbyniol gan y gwir Dduw (Tit 1:16; Iago 1:26)

ARFERION AC AGWEDDAU CREFYDDOL CYFFREDIN YNG NGOLEUNI'R BEIBL (9 mun.)

Mae'r Beibl yn ein helpu ni i weld pwy 'rydyn ni mewn gwirionedd yn ei addoli (*g*70 8/22 5-8) (Ymresymwch â'r gynulleidfa o'r Ysgrythurau)

Mae'r Beibl yn condemnio rhai arferion arbennig sy'n boddhau'r Diafol ond sy'n digio Jehofah

Addoli delwau a thrwy gyfrwng delwau (Ex 20:4, 5; 1Cor 10:14, 19, 21)

Cyfun-addoliad (*w*90 12/1 3-4)

Addoli ryng-ffydd seiliedig ar y syniad fod pob crefydd yn dda (Deut 12:29-31; Mth 16:6, 12)

Sêr-ddewiniaeth (*g*90 3/8 13-15; *g*89 11/22 3-8)

Addoli cyndadau (*g*89 3/8 18-19)

Mae agweddau cyffredin a welir ymhlith pobl grefyddol yn gwrthdaro â Gair Duw, gan wasanaethu buddiannau Satan (Eff 2:1-5; *w*87 10/15 3-4)

Cymryd mantais moesol cyhyd â'ch bod chi'n "caru" y person arall neu cyhyd â bod y ddau yn gytun (*g*86 7/8 3; *g*85 12/8 10)

Caniatáu gwrywgydiaeth ac arferion gwyrdroedig eraill (*w*89 4/15 8; *g*89 1/22 7-9; *w*87 11/1 14)

Eu prif gonsýrn nhw ydi buddiannau personol (busnes neu gymdeithasol), gan osgoi gwir ymwneud â chrefydd (Iago 2:14, 26)

MAE MODD BOD YN SICR EICH BOD CHI'N GWIR ADDOLI DUW HOLLALLUOG (12 mun.)

Er mwyn bod yn sicr fod eich addoliad yn cael ei iawn gyfeirio, mae'n rhaid i chi ddysgu mwy am Jehofah a bod yn fodlon dilyn ei arweiniad e (Salmau 25:8, 12, 14; Act 8:30-35)

Mae llawer wedi dysgu nad ydi Duw yn dri-un, nac yn un sy'n arteithio pechaduriaid, nac yn gyfrifol am ddrygioni, ac yn y blaen

Ond mae hi'r un mor bwysig gwybod am (adnabod?) nodweddion arbennig Duw

Duw cariad, arswydol fel y gwelir yn ei ymwneud â phobl ac yn ei weithredoedd (*pe* 37-8; *w*89 12/1 4-7; *w*85 3/15 5-7)

Mae safonau perffaith ganddo ac mae e'n annog hyn ym moesoldeb ac ymddygiad ei addolwyr (*pe* 37-8; *w*87 10/15 4-7; *w*78 5/15 5-8)

Duw pwrpas fydd yn cyflawni ei ewyllys (Eseia 14:24, 27)

Tad tyner sy'n gwahodd bodau dynol i gael perthynas i'w thrysori ag ef (*lp* 113-14)

Mi fedrwn ni gael ein hystyried yn gyfiawn fel cyfeillion Duw (*w*85 12/1 15)

Er ein bod ni'n amherffaith, mi fedrwn ni gael rhan yn y gwaith pregethu pwysig mae Duw wedi ei roi i'w weision heddiw (1Cor 3:9)

Heb amheuaeth dyma'r Duw y dylen ni fod eisiau ei wasanaethu

MEDRWN BROFI MAI JEHOFAH NID SATAN 'RYDYM EISIAU FEL EIN DUW (6 mun.)

Mae 'na ffyrdd pendant o brofi ein bod ni'n gwir eisiau Jehofah ac nid Satan yn Dduw i ni

Ymateb i'r anogaeth i ymwrthod â phob gau addoli yn ddi-ymdroi (Dat 18:4; *re* 265)

Bod yn bersonol benderfynol o barhau i ddysgu am Jehofah (Preg 12:13; Eff 4:13)

'Gwneud cyfiawnder; caru ein brawd' (1In 3:10)

Peidio perthyn i'r byd, ac felly osgoi addoli Satan (Iago 4:4)

Rhaid cofio nad oes 'na dir canol; mae'n rhaid inni fod ar un ochr neu'r llall (Jos 24:15; Mth 6:24)

Daw llawenydd tragwyddol i'r rhai sy'n 'nabod Jehofah fel eu Duw (Eseia 25:9)

(Glynwch yn glòs at y deunydd a amlinellwyd, a chadw at yr amser a nodwyd ar gyfer pob adran. 'Does dim angen darllen pob testun a grybwyllir. 'Does dim rhaid crybwyll y deunydd ffynhonnell mewn cromfachau)

© 1993 Watch Tower Bible and Tract Society of Pennsylvania